RHONDDA CYNON TAF
IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD,
A GWASANAETHAU CYMUNED




# CYNGOR AR DDIOGELWCH i'r Fasnach Tacsis

# CAMFANTEISIO AR BLANT

**OS YDYCH CHI'N HELPU UN PERSON, RYDYCH CHI WEDI GWNEUD GWAHANIAETH**

RHONDDA CYNON TAF

## Gall camfanteisio effeithio ar UNRHYW blentyn

- Gall plant sydd â phrofiad o ofal fod yn fwy agored i niwed oherwydd eu profiad blaenorol.
- Plant sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol neu sydd mewn darpariaeth amgen.
- Gall plant sy'n byw mewn tlodi gael eu paratoi (groomed) trwy gynnig eiddo materol neu arian iddyn nhw eu hunain neu eu teulu oherwydd pryderon ariannol.
- Gall plant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau fod yn fwy agored i niwed
- Mae plant sydd ddim yn ddinasyddion y DU neu sydd ddim â statws mewnfudo oherwydd natur fregus eu statws yn agored i niwed ychwanegol sy'n rhoi'r cyfle i gangiau eu targedu.
- Mae'n bosibl y bydd gan rai plant aelodau o'r teulu sy'n ymwneud â gweithgarwch troseddol ac felly gellir camfanteisio arnyn nhw i fynd ar neges (run errands). Mewn achosion eraill mae teuluoedd pobl ifainc dan fygythiad os nad yw'r person ifanc yn cydweithredu.
- Mae'n bosibl y bydd plant sydd ddim yn hysbys i awdurdodau – sydd efallai o deuluoedd cefnog – yn cael eu targedu oherwydd eu bod yn llai tebygol o ddenu sylw awdurdodau.
- Plant ag iechyd meddwl a lles gwael, â hunan-barch isel, sydd wedi profi profedigaeth neu sy'n cael eu bwlio
- Plant sydd heb unrhyw un o'r ffactorau uchod ond sydd efallai'n agos at rywun sy'n ceisio camfanteisio ar blant.



**Mae Camfanteisio ar Blant yn digwydd pan fydd unigolyn neu grŵp yn cymryd mantais ar anghydbwysedd pŵer i orfodi, rheoli, trin neu dwyllo plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed i gyflawni gweithgarwch troseddol neu rywiol neu gaethwasiaeth fodern.**

Gall hyn fod yn gyfnewid am rywbeth y mae'r dioddefwr ei angen neu ei eisiau. Mae hyn yn fwyaf tebygol o fod yn ganlyniad i feithrin perthynas amhriodol (grooming), ble mae troseddwr wedi nodi'r hyn y gallai fod ei angen neu ei eisiau ar berson ifanc.

Gall yr anghydbwysedd pŵer fod trwy amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys oedran, rhyw, gallu gwybyddol, statws, a mynediad at adnoddau economaidd neu adnoddau eraill.

Mae'n bosibl bod y dioddefwr wedi cael ei ecsbloetio hyd yn oed os yw'r gweithgaredd yn ymddangos yn gydsyniol, ac nid yw camfanteisio bob amser yn cynnwys cyswllt corfforol; gall hefyd ddigwydd trwy dechnoleg.

**Mae gan bawb DDYLETSWYDD I ROI gwybod os ydyn nhw'n amau bod plentyn yn cael ei ecsbloetio a bod yn effro iddo yw'r cam cyntaf tuag at roi terfyn arno.**

**Os ydych chi o'r farn bod plentyn mewn perygl uniongyrchol o niwed, ffoniwch 999**



# Mae Camfanteisio ar Blant yn gymhleth and takes a variety of forms...

- **Child Sexual Exploitation (CSE)**

**Mae yna wahanol fathau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ac mae'n amrywio o anfon delweddau rhywiol ar-lein i gael eich gorfodi i gael rhyw er mwyn talu dyled neu dalu am ddiogelwch.**

Gall ddigwydd wyneb-yn-wyneb neu drwy dechnoleg, a gall ddigwydd heb yn wybod i berson ifanc, er enghraifft rhywun arall yn copïo delweddau y maen nhw wedi'u creu a'u postio ar gyfryngau cymdeithasol. Gall camfanteisio'n rhywiol ar blant effeithio ar unrhyw blentyn neu berson ifanc (bachgen neu ferch) o dan 18 oed, gan gynnwys pobl ifainc 16 a 17 oed sy'n cael rhoi caniatâd yn gyfreithiol i gael rhyw. Mae hyn yn rhannol oherwydd anghydbwysedd pŵer posibl.

- **Child Criminal Exploitation (CCE)**

**Mae plant sy'n destun camfanteisio'n droseddol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol gan gynnwys symud cyffuriau neu arian sy'n arwain at fudd personol i unigolyn, grŵp neu gang troseddol cyfundrefnol.**

Gall hyn hefyd gynnwys unigolion sy'n cyflawni trosedd (gan gynnwys aelodau o'r teulu) a gangiau o Gymru. Un o'r mathau mwyaf cyffredin o weithgarwch camfanteisio'n droseddol yw Llinellau Cyffuriau. Mae hyn yn cynnwys rhwydweithiau delio cyffuriau yn ecsbloetio plant ac oedolion agored i niwed i symud, dal a gwerthu cyffuriau ar draws y DU gan ddefnyddio llinellau ffôn pwrpasol i dderbyn archebion. Mae llawer o'r plant yma'n teithio rhwng dinasoedd a threfi gwledig a lleoliadau eraill ar drenau, cerbydau hurio preifat a thacsis.

- **Caethwasiaeth Fodern...**

**yw recriwtio, symud, llochesu neu dderbyn plant, menywod neu ddynion trwy ddefnyddio grym, gorfodaeth, cam-drin bregusrwydd, dichell neu ddulliau eraill at ddibenion camfanteisio.**

Efallai na fydd rhai plant yn gyfarwydd â thermau fel 'masnachu' neu 'gaethwasiaeth' neu'n gallu cydnabod bod eu profiad nhw'n fath o gam-drin. Efallai eu bod yn meddwl mai dim ond i blant sydd ar eu pen eu hunain neu ymfudwyr y gall hyn ddigwydd. Gall gwladolion y DU hefyd gael eu masnachu i mewn i'r DU, allan o'r DU ac o fewn y DU er mwyn i ryw fath o gamfanteisio ddigwydd.

- **Ystyr radicaleiddio...**

**yw'r broses pan mae unigolyn yn dod i gefnogi terfysgaeth a syniadau eithafol sy'n gysylltiedig â grwpiau terfysgol.**

Proses ac nid digwyddiad yw radicaleiddio fel arfer. Ystyr 'eithafiaeth' yw gwrthwynebiad llafar neu weithredol i werthoedd sylfaenol Prydain, gan gynnwys democratiaeth, y gyfraith, rhyddid unigol a pharch a goddefgarwch tuag at grefyddau a chredoau eraill. Yn ogystal â hynny, mae ein diffiniad o eithafiaeth yn cynnwys galw am ladd aelodau o'n lluoedd arfog, boed hynny yn y DU neu dramor.

Yn ôl Gwasanaeth Erlyn y Goron, diffiniad hyn yw: 'the demonstration of unacceptable behaviour by using any means or medium to express views which:

- Encourage, justify or glorify terrorist violence in furtherance of particular beliefs;
- Seek to provoke others to terrorist acts;
- Encourage other serious criminal activity or seek to provoke others to serious criminal acts;
- Foster hatred which might lead to inter-community violence in the UK.

- **Ystyr 'trais mewn grŵp'...**

**yw anaf corfforol gwirioneddol, ymgais i anafu'n gorfforol, neu fygythiad o anaf corfforol sy'n fwriadol a heb gydsynio, a gyflawnir gan un neu fwy o unigolion y mae eu penderfyniadau a'u hymddygiad yn cael eu dylanwadu gan grŵp maen nhw'n perthyn iddo ar hyn o bryd neu maen nhw'n gysylltiedig ag ef.**

**I gael rhagor o wybodaeth...**

bwriwch olwg ar **Weithdrefnau Diogelu Cymru** drwy lawrlwytho'r ap

**diogelu.cymru**

Download on the App Store

GET IT ON Google Play

## Sut mae plant yn cael eu hecsbloetio

Mae gwahanol ffyrdd y mae plant a phobl ifainc yn cael eu paratoi ar gyfer camfanteisio. Mae llawer o unigolion sy'n cyflawni trosedd yn gallu nodi a thargedu gwendidau, ymdreiddio i rwydweithiau cymdeithasol ac ynysu pobl ifainc rhag dylanwadau amddiffynnol. Efallai bod hyn yn cynnwys y canlynol:

- **Gangiau troseddol**
  Mae'r sawl sy'n cyflawni trosedd yn treulio llawer o amser ac egni yn meithrin perthynas â'u dioddefwyr, er enghraifft dangos diddordeb yn eu bywyd neu brynu pethau iddyn nhw maen nhw eu heisiau neu eu hangen. Byddan nhw'n creu darlun o ba mor ddefnyddiol y mae'r person ifanc yn debygol o fod a sut gallen nhw helpu'r rhwydwaith troseddol.
- **Technoleg**
  Gall y sawl sy'n cyflawni trosedd ddefnyddio technoleg ddigidol i dargedu, meithrin perthynas amhriodol a manteisio ar bobl ifainc. Er enghraifft, trwy gyfryngau cymdeithasol, neu YouTube (mae YouTube wedi cael ei ddefnyddio gan gangiau llinellau cyffuriau).
- **Cyfoedion**
  Gall aelodau hŷn o'r teulu neu ffrindiau sydd eisoes yn cymryd rhan mewn gweithgarwch camfanteisio dargedu aelodau iau o'r teulu a ffrindiau fel ffordd o ehangu'r rhwydwaith. Gall fod achosion hefyd ble mae plant sy'n cael eu cam-drin yn cael eu gorfodi i ddod â phlant eraill yn rhan o bethau.
- **Grwpiau dibynadwy**
  gall cyflawnwyr fod yn rhan o glybiau chwaraeon neu sefydliadau crefyddol, a manteisio ar hyn er mwyn meithrin ymddiriedaeth gyda phobl ifanc.

Rhaid i bawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifainc fod yn glir nad yw **camfanteisio byth yn fai ar y plentyn**, hyd yn oed os yw rhyw fath o gyfnewid wedi digwydd (er enghraifft, os yw'r person ifanc wedi derbyn taliad, rhoddion, perthynas neu statws). Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i fod yn ddiogel a chael eu hamddiffyn rhag niwed.

## Signs of Exploitation

There are some behavioural changes that children or young people may display.

- **persistently going missing from school or home**
- **regularly being found out of the home area**
- **unexplained acquisition of money, clothes or mobile phone**
- **excessive receipt of texts/phone calls**
- **relationship with controlling / older adults**
- **leaving home and care without explanation**
- **suspicion of physical assault / unexplained injuries**
- **gang association and isolation from peers or social networks**
- **significant decline in school results and performance**
- **self-harm or significant changes in emotional wellbeing.**

The following IS NOT AN EXHAUSTIVE LIST but may help to identify a child or young person who is being exploited.

Dyna pam ei bod yn bwysig bod unrhyw un sy'n defnyddio trafnidiaeth neu sy'n gweithio yn y maes yn gallu adnabod arwyddion o gamfanteisio. Efallai y byddan nhw'n sylwi pan fydd pethau ddim yn ymddangos yn iawn a byddan nhw'n gallu rhoi gwybod i'r heddlu am eu pryderon, gan atal plant rhag cael niwed.

**Does dim modd i unrhyw roi'i ganiatâd i gael ei gamfanteisio arno**

**MATH O GAM-DRIN YW CAMFANTEISIO**

### Sut mae hyn yn effeithio ar y diwydiant tacsis a hurio preifat?

**Mae gyrwyr tacsis mewn sefyllfa unigryw i helpu.**

**Mae tystiolaeth yn dangos bod tacsis yn cael eu defnyddio'n aml i gludo plant (merched a bechgyn) rhwng gwestai, tafarndai a mannau eraill ble maen nhw'n cael eu hecsbloetio. Felly mae'n gyfrifoldeb ar yrwyr tacsis i sylwi ar arwyddion o gamfanteisio.**

Mae'n bosibl na fydd plant sy'n cael eu hecsbloetio yn gallu mynegi'n llawn eu bod wedi'u camfanteisio, neu efallai eu bod nhw ddim yn ystyried eu hunain yn ddioddefwyr. Efallai eu bod yn gwadu hynny neu'n ofnus, neu efallai eu bod o'r farn bod y sawl sy'n eu camfanteisio yn ffrind, partner neu rywun sy'n gofalu amdanyn nhw. Mae gyrwyr tacsis mewn sefyllfa unigryw i sylwi pan nad yw popeth yn ymddangos yn iawn. Gallan nhw roi gwybod i'r heddlu am eu pryderon, ac o bosibl achub plentyn.



# Dangosyddion Camfanteisio ar Blant ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat:

## Pa bethau i edrych allan amdanyn nhw?

**Boed yn ystod y dydd neu'r nos, cadwch lygad ar blant a phobl ifainc (merched a bechgyn) sydd efallai:**

- O ardal arall, felly sydd o bosibl yn gyfarwydd â'r ardal (efallai eu bod yn ymddangos ar goll) ac sydd efallai ag acen drefol amlwg.
- Yn teithio yn ystod oriau ysgol neu oriau anarferol (e.e. gyda'r nos).
- Yng nghwmni unigolyn hŷn sy'n eu rheoli.
- Wedi dioddef o ymosodiad corfforol/sydd ag anafiadau does dim modd eu hesbonio.
- Yn derbyn nifer helaeth o negeseuon testun, galwadau ffôn neu alwadau fideo.
- Yn ymddangos yn encilgar, yn anghyfforddus, neu'n ofidus yng nghwmni oedolion.
- Yn ymddangos yn fregus oherwydd diod neu gyffuriau, ac yng nghwmni unigolion hŷn.
- Yn mynd ar y trên tra'u bod dan ddylanwad sylweddau neu mewn cyflwr pryderus, neu sy'n teithio'n hwyr yn y nos heb gwmni.
- Yn defnyddio geirfa neu slang dyw eraill ddim yn eu deall.
- Yn cael eu casglu a'u cludo i westai, llety gwely a brecwast, neu bartïon.
- Yng nghwmni oedolion sy'n ymddwyn mewn modd rhywiol tuag atyn nhw.
- Yn cael eich gollwng wrth unrhyw leoliad sy'n peri pryder i chi.
- Ddim yn talu gan fod oedolion sydd ddim yn y tacsi yn talu ar eu rhan.



## Arfer gorau

**Nod y canllawiau yma yw hyrwyddo arfer diogelu da ar gyfer gyrwyr a staff sy'n gweithio gyda theithwyr sy'n agored i niwed.**

- Dylai gyrwyr fod â cherdyn adnabod â llun gyda nhw bob amser.
- Dylai'r broses trefnu cerbyd gynnwys gwirio a yw'r teithwyr yn agored i niwed fel bod modd trefnu darpariaeth benodol, hynny yw, ydych chi'n effro i unrhyw bryderon blaenorol.
- Wrth deithio gyda theithwyr sy'n agored i niwed, dylid dangos cerdyn adnabod â llun i gynhaliwr y person agored i niwed. Os oes angen, dylai'r gyrrwr/staff gofnodi manylion cyswllt y cynhaliwr os nad yw'r unigolyn yn teithio gyda rhywun.
- Peidiwch byth â theithio gyda theithwyr o fwy nag un grŵp, oni bai eich bod wedi cael caniatâd ffurfiol.
- Os gwrthodir gwasanaeth i deithiwr sy'n agored i niwed, dylid rhoi gwybod i berson cyfrifol fel bod modd gwneud trefniadau eraill.
- Gofynnwch bob amser a oes angen cymorth ar deithiwr sy'n agored i niwed – peidiwch â chymryd yn ganiatäol ei fod angen/ddim angen cymorth.
- Dylai gyrwyr gadw cofnod pan fydd gwasanaeth wedi'i ddarparu i deithiwr sy'n agored i niwed, gan gynnwys manylion unrhyw ddigwyddiadau/camau a gafodd eu cymryd neu achosion o wrthod gwasanaeth.

### Dylai gyrwyr/staff fod yn broffesiynol bob amser a ddylen nhw ddim:

- Cyffwrdd â pherson sy'n agored i niwed mewn modd amhriodol.
- Gwneud sylwadau sarhaus neu amhriodol (fel rhegi neu ddefnyddio iaith rywiol neu wahaniaethol).
- Ymddwyn mewn ffordd a all wneud i deithiwr sy'n agored i niwed deimlo'n ofnus neu dan fygythiad.
- Ceisio camddefnyddio manylion personol am blentyn (er enghraifft, cyfathrebu â phlentyn yn ei gyfeiriad, ar rwydweithiau cymdeithasol, ar y rhyngrwyd neu dros ffôn symudol neu drwy ddefnyddio unrhyw wybodaeth arall a gafodd ei datgelu wrth drefnu tascsi, neu drwy unrhyw agwedd arall ar y busnes).

# Rhowch wybod

- Os yw gyrrwr neu aelod o staff yn pryderu am ddiogelwch, lles neu ymddygiad person sy'n agored i niwed, dylen nhw roi gwybod i'r heddlu neu wasanaeth perthnasol arall ac i reolwr y busnes.
- Os ydych chi'n pryderu am ymddygiad rhywun, rhowch wybod i'ch rheolwr neu'r asiantaeth berthnasol am eich pryderon.
- Dylai gyrwyr/staff ddarllen polisi chwythu'r chwiban y busnes.

## Os ydych chi o'r farn bod plentyn mewn **perygl uniongyrchol** o niwed, ffoniwch

# 999



# Beth i'w wneud os oes gyda chi bryderon am berson ifanc:

**Os ydych chi o'r farn bod y person ifanc mewn perygl uniongyrchol o niwed, ffoniwch 999 i roi gwybod am eich pryderon.**

Rhowch gymorth i'r person ifanc, os nad yw gwneud hynny'n ei roi mewn perygl ychwanegol o niwed:

- gofyn a yw'n iawn
- gwirio a yw'n cael sylw digroeso
- gwirio a yw'n gwybod pwy sydd yn ei gwmni ac a yw'n teimlo'n ddiogel bod gyda'r person hwnnw
- cynnig ffonio rhiant/gwarcheidwad/cynhaliwr

## Rhoi gwybod am bryderon:

- Gwnewch nodyn o'ch gwybodaeth, yr hyn rydych chi'n ei weld a'i glywed, a'ch pryderon; yna
- Ffonio Heddlu De Cymru ar 101 os oes angen ymateb neu gyngor sydd ddim yn argyfwng.

## Gall gwybodaeth i'w rhannu gynnwys:

- enwau, lleoliadau a chyfeiriadau
- disgrifiadau o bobl
- rhifau cofrestru, gwneuthuriad a modelau cerbydau

Mae modd ichi hefyd roi gwybod am eich pryderon i

**Garfan Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y Gwasanaethau i Blant**

☎ **01443 425006** (office hours)
✉ CarfanGCC@rctcbc.gov.uk

**Emergency Duty Team (Out of hours)**

☎ **01443 743665**
✉ CarfanArDdyletswyddGwaithCymdeithasol@rctcbc.gov.uk

Mae Adran Trwyddedu RhCT yn gweithio mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru, felly os yw'n well gyda chi gysylltu â'r adran yma i roi gwybodaeth sydd ddim yn frys, e-bostiwch

✉ **LAdran.Trwyddedu@rctcbc.gov.uk**

**OS YDYCH CHI'N HELPU UN PERSON, RYDYCH CHI WEDI GWNEUD GWAHANIAETH**



Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg
You are welcome to communicate with us in Welsh